Paratoi ar gyfer eich aseiniad cyntaf

Rhag ofn i chi ei cholli hi, dyma'r holl wybodaeth o'n hwythnos o gymorth ar gyfer eich aseiniad cyntaf. Hyd yn oed os ydych chi eisoes wedi gorffen eich aseiniad cyntaf, gallwch ddefnyddio hwn ar gyfer unrhyw aseiniadau yn y dyfodol.



Deall eich aseiniad

Cyn i chi ddechrau ymchwilio neu ysgrifennu, mae'n bwysig sicrhau eich bod yn deall yn union beth mae'r aseiniad yn gofyn i chi ei wneud.

Edrychwch ar ein ffeithlun "**Beth mae fy aseiniad yn (wirioneddol) gofyn i mi ei wneud?**" i ddysgu mwy am eiriau cyffredin yn nhasgau aseiniad megis *dadansoddwch*, *trafodwch*, *gwerthuswch*, a *chymharwch*. Gall deall y geiriau yma eich helpu i ganolbwyntio ar beth mae'r cwestiwn yn ei ofyn a sicrhau eich bod yn cadw ar y trywydd iawn yn eich aseiniad.

Dod o hyd i'ch deunyddiau

Mae gan Brifysgol Aberystwyth ddwy lyfrgell a mynediad at filoedd o adnoddau ar-lein, gan roi digon o ddeunydd o ansawdd uchel i chi ar gyfer eich aseiniad. Mae llawer ar gael, ond gall fod yn anodd gwybod ble i ddechrau. Gallwn eich helpu i ddod o hyd i'r wybodaeth gywir ar gyfer eich aseiniad.

Lle gwych i ddechrau yw **rhestr ddarllen y modiwl**. Mae'r llyfrau, yr erthyglau a'r adnoddau hyn wedi cael eu hargymell gan eich darlithwyr i gefnogi eich astudiaethau.

Ddim yn siŵr sut i ddod o hyd i lyfr, erthygl cyfnodolyn, neu adnodd ar-lein? Bydd ein canllaw ar-lein yn dangos i chi sut i chwilio am a defnyddio deunyddiau trwy'r llyfrgell. Gallwch hefyd ymweld â'r ddesg gymorth Lefel F yn llyfrgell Hugh Owen rhwng 11:00 a 15:00. Gall ein llyfrgellwyr pwnc yno eich helpu i chwilio catalog y llyfrgell, dod o hyd i adnoddau ar gyfer eich pwnc, a dod o hyd i lyfrau ar y silffoedd.

Paratoi'r dechnoleg

Gall sicrhau bod eich technoleg wedi'i pharatoi'n gynnar wneud ysgrifennu aseiniad yn llawer haws. Mae'n golygu y gallwch chi ganolbwyntio ar eich gwaith yn hytrach na phoeni am ble mae'ch ffeiliau'n cael eu cadw neu a ydych chi'n defnyddio'r fersiwn ddiweddaraf o ddogfen.

Fel myfyriwr ym Mhrifysgol Aberystwyth, cewch ddefnyddio **Microsoft 365** am ddim, gan gynnwys rhaglenni fel **Word, PowerPoint, ac Excel**. Byddwch hefyd yn cael defnyddio storfa ffeiliau a reolir gan y brifysgol, felly mae copi wrth gefn yn cael ei gadw o'ch gwaith ac yn hygyrch lle bynnag y byddwch chi'n astudio.

Dim cyfrifiadur eich hun, neu broblemau gyda'ch gliniadur? Mae digon o gyfrifiaduron ar gael ar draws y campws, gan gynnwys cyfleusterau yn **Y Weithfan** yn y dref.

Mae yma lawer o offer sy'n helpu i wneud ein hadnoddau yn fwy hygyrch. Ac os ydych chi'n gweithio trwy gyfrwng y Gymraeg, beth am ddefnyddio Cysgliad – sy'n gwirio gramadeg a sillafu.

Ysgrifennu Eich Aseiniad

Rydych chi wedi gwneud yr ymchwil, wedi casglu'ch syniadau, ac rydych chi'n barod i ddechrau ysgrifennu.

P'un a ydych chi'n pendroni sut i strwythuro'ch aseiniad, datblygu'ch dadl, neu ysgrifennu cyflwyniad a chasgliad cryf, fe gewch ddigon o ganllawiau ar dudalennau **Ysgrifennu Aseiniadau SgiliauAber**

A pheidiwch ag anghofio cyfeirnodi'r llyfrau a'r erthyglau rydych chi wedi'u defnyddio. Cofiwch: mae marciau'n aml ar gael yn eich aseiniadau am gyfeirnodi ffynonellau'n gywir.

Angen lle i ganolbwyntio? Mae gan y llyfrgell amrywiaeth o fannau astudio i weddu i wahanol ffyrdd o weithio. Gallwch gydweithio â ffrindiau yn **Ystafell Iris de Freitas** neu ddod o hyd i fan tawel ar **Lefel F** os yw'n well gennych chi weithio mewn heddwch.

Os ydych chi'n ei chael hi'n anodd dechrau ysgrifennu, cewch drefnu apwyntiad gyda **Samantha**, awdur cyhoeddedig a Chymrawd y Gronfa Lenyddol Frenhinol, all eich helpu i drefnu eich meddyliau a throi eich syniadau'n ysgrifen.

Cyflwyno Eich Aseiniad

Rydych chi wedi gwneud y gwaith caled. Nawr mae'n amser cyflwyno eich aseiniad.

Ceisiwch beidio cyflwyno'r gwaith ar y funud olaf. Mae rhoi digon o amser i chi'ch hun cyn ei bod yn amser cyflwyno yn golygu bod modd ichi ddelio ag unrhyw faterion technegol annisgwyl a sicrhau bod popeth yn cael ei uwchlwytho'n gywir i'r system.

Efallai y byddwch chi hefyd eisiau cyflwyno fersiwn cyn y dyddiad cau er mwyn ichi gael edrych ar yr adroddiad tebygrwydd yn Turnitin – gallai eich helpu i sylwi ar unrhyw gyfeiriadau all fod ar goll cyn eich cyflwyniad terfynol. Darganfyddwch fwy yn ein canllaw Libguide.

Mae gennym ni ganllawiau i'ch helpu i gyflwyno'ch gwaith. Ar ôl i chi gyflwyno, cofiwch wirio'ch derbynneb a'r e-bost cadarnhau i sicrhau bod popeth wedi cael ei lwytho'n llwyddiannus.

Gair i gall: defnyddiwch Chrome neu Firefox i gyflwyno'ch gwaith a lawrlwytho ac arbed derbynneb y cyflwyniad.

Llongyfarchiadau!

Cymrwch funud i ddathlu. Mae cwblhau eich aseiniad cyntaf yn y brifysgol yn gyflawniad mawr.

P'un a ydych chi'n gwobrwyo'ch hun gyda rhywbeth melys o'r **Neuadd Fwyd**, sesiwn ymarfer corff yn y **Ganolfan Chwaraeon**, neu wylio'r haul yn machlud o **Iris de Freitas**, mae'n haeddiannol.

Da iawn chi. Rydych chi newydd gwblhau eich aseiniad cyntaf. Ac rydych chi wedi ennill sgiliau fydd yn eich helpu chi yn aseiniadau'r dyfodol.

Oeddech chi'n gwybod bod gan y llyfrgell gasgliad o lyfrau i'ch helpu'n benodol i ddatblygu eich sgiliau astudio?

Mae **Casgliad Astudio Effeithiol** ar **Lefel F Llyfrgell Hugh Owen ac yn Llyfrgell y Gwyddorau Ffisegol**, yn llawn cyngor ymarferol ar bynciau fel ysgrifennu academaidd, adolygu, meddwl yn feirniadol, rheoli amser, a sgiliau ymchwil. P'un a ydych chi'n paratoi eich aseiniad cyntaf yn y brifysgol neu'n gweithio tuag at PhD, mae cefnogaeth ar gael ichi.

A chofiwch y byddwn yn darparu gwybodaeth hefyd am sut i ddefnyddio'ch adborth ym mis Tachwedd.